

Llywio'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru

Y pedwar diben Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r uchelgais ar gyfer cynllun cwricwlwm ysgolion. Dylen nhw llywio gweledigaeth ysgolion a phrosesau cynllunio'r cwricwlwm ac asesiadau.	dysgwyr uchelgeisiol, galluog cyfranwyr mentrus, creadigol dinasyddion egwyddorol, gwybodus unigolion iach, hyderus	Y daith i weithredu'r cwricwlwm Mae hyn yn darparu casgliad cyffredin o ddisgwyliadau, gwybodaeth ategol a chwestiynau allweddol i gefnogi ysgolion a lleoliadau yn y broses barhaus o gynllunio'r cwricwlwm.
Creu gweledigaeth ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm Wrth i chi ddatblygu eich cwricwlwm a'ch trefniadau asesu, mae'r adrannau hyn yn nodi'r hyn y dylid ei ystyried wrth gynllunio pob rhan o'ch cwricwlwm.	Cynllunio eich cwricwlwm Cynnydd ac Asesu	
Meysydd dysgu a phrofiad Mae'r cwricwlwm yn trefnu pynciau ym Meysydd. Mae'r rhain yn hybu parhad a chynnydd mewn dysgu wrth gynnal dysgu disgyblaethol. Mae pob Maes yn cynnwys datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, egwyddorion cynnydd, disgrifiadau dysgu ac adran cynllunio eich cwricwlwm.	Y Celfyddydau Mynegiannol Iechyd a Lles Y Dyniaethau Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Mathemateg a Rhifedd Gwyddoniaeth a Thechnoleg	
Themâu trawsgwricwlaidd Dylid ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd Cwricwlwm i Gymru mewn dysgu ym mhob rhan o'r cwricwlwm.	Addysg cydberthynas a rhywioldeb Hawliau dynol Amrywiaeth Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol	
Sgiliau cyfannol Mae sgiliau cyfannol yn sail i'r pedwar diben a dylid eu datblygu o fewn ystod eang o ddysgu ac addysgu. Wrth wraidd y sgiliau hyn y mae pwysigrwydd dysgwyr yn cydnabod, yn defnyddio ac yn creu gwerth o wahanol fathau, gan gynnwys gwerth ariannol, diwylliannol, cymdeithasol a dysgu.	Creadigrwydd ac arloesi Meddwl yn feirniadol a datrys problemau Effeithiolrwydd personol Cynllunio a threfnu	
Sgiliau trawsgwricwlaidd Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol o fewn Cwricwlwm i Gymru. Bydd pob ymarferydd ym mhob Maes yn gyfrifol am ddatblygu'r sgiliau hyn a sicrhau cynnydd ynddyn nhw.	Fframwaith Llythrennedd Fframwaith Rhifedd Fframwaith Cymhwysedd Digidol	